

GUIDE
DOGS



Cymru

Modiwl 2

Rhagdybiaethau a safbwyntiau



Rhagdybiaethau a safbwyntiau

Dolenni Cwricwlwm

Cymraeg, Saesneg, ABGI, Iechyd a Lles, Dealltwriaeth Personol a Chyd-ddealltwriaeth

Mae'r adran hon yn annog disgyblion i ystyried rhagdybiaethau, safbwyntiau a'r stereoteipiau sydd gennym ynghylch pobl sydd naill ai'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg ac o ble y daeth y rhagdybiaethau hyn.

Ar gyfer gweithgareddau yn y modiwl hwn, mae angen:

- Taflen adnoddau '**Sut fydddech chi'n teimlo?**'
- Dolen i'r fideo **A Test of Blind Ambition**

Gweithgaredd

Athro i arwain y drafodaeth

Opsion arall fyddai gwahanu'r dosbarth i grwpiau er mwyn creu map meddwl o'r rhagdybiaethau a'r safbwyntiau sydd gan ei grŵp hwy o bobl sydd yn ddall.

Dewch â'r holl ragdybiaethau ynghyd a'u trafod – o ble y daw'r cysyniadau hyn? Mae angen cyfarwyddyd gan yr athro ar y trafodaethau hyn er mwyn sicrhau nad yw archwilio stereoteipiau'n annog rhagfarn na safbwyntiau anaddas.

- Sut olwg sydd ar berson dall yn eich barn chi?
- Sut fydddech chi'n gwybod fod rhywun yn ddall?
- Beth yw eu diddordebau?
- Beth fyddai eu swyddi?
- A fydddech chi'n ystyried rhywun sy'n ddall i fod yn anabl?

Sut 'mae'r person sydd yn ddall' yn cael ei bortreadu mewn llyfrau/ffilmiau?

Mae pobl sy'n ddall yn aml yn cael eu portreadu ar gyfer bwriadau comig wrth iddynt daro i mewn i bethau, fel person drwg sydd wedi cael damwain neu fel gwrach neu hen berson. Bach iawn o ddelweddau cadarnhaol sydd yna o bobl ddall ar y cyfryngau, y tu hwnt i'r Gemau Paralympaidd. Mae arch-arwr dall yn y ffilm 'Daredevil' yn defnyddio ei synhwyrau eraill er mwyn dirnad y byd ac mae hyn yn cael ei weld fel peth cadarnhaol sydd hefyd yn herio'r myth fod gan bobl ddall synhwyrau llawer cryfach.

Straeon go iawn sy'n ymwneud â rhagdybiaethau a safbwyntiau:

Oes unrhyw un yn y dosbarth erioed wedi cwrdd ag unigolyn sydd â nam ar ei olwg? A yw pobl fel hyn yn cael eu portreadu mewn modd arbennig ar y cyfryngau? Trafodwch - a yw'r rhagdybiaethau hyn yn dod o brofiad?



Roeddwn yn dywysydd gweld ar gyfer hen wraig a daeth gwraig arall ataf a dweud wrthyf, o flaen yr hen wraig, "Rwy'n credu fod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn wych; helpu hen wraig." Gallai'r hen wraig, ddall glywed popeth ac roedd rhaid iddi wrando ar hyn, yn ogystal â chael ei hanwybyddu'n llwyr.

Mae pobl yn tybio fod yn rhaid iddynt fod yn or-gynorthwygar e.e. gadael gwagle mawr ar y palmant er mwyn i'r PCT (perchennog ci tywys) gerdded, dilyn y PCT drwy'r siop ac ati gan wneud yn siŵr ei fod yn iawn.

Mae pobl yn tybio fod y person sy'n ddall neu sy'n rhannol ddal yn 'dwp' e.e. siarad â hwy'n uchel ac yn araf iawn. Mae llawer o PCT yr wyf wedi gweithio gyda hwy wedi cael y profiad hwn ac mae rhai o'r PCT mwyaf gwrol wedi dweud wrthyf am ymateb drwy ddweud, "Diolch, rwy'n ddall, nid yn fyddar!" Pan fyddaf yn tywys bydd pobl yn aml yn gofyn cwestiynau i mi sydd wedi eu cyfeirio at y person arall, yn hytrach na gofyn iddyn nhw'n uniongyrchol. Mae hyn yn bychanu'r person dall ac yn gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus. Mae hyn wedi digwydd i mi gymaint o weithiau, rwyf nawr yn ymateb â, "Gofynnwch i Alex/Mrs Smith ac ati." **Lynda - tywysydd gweld**

Mae Katie, sy'n gerddwr cŵn, wedi profi rhagdybiaethau a safbwyntiau pobl amdani hi a'i chi bach, DeeJay.

- Mae pobl yn tybio y gallan nhw ddod aton ni a rhoi mwythau a siarad â'r ci pan fydd yn gweithio. Ymateb Katie yn awr yw, "Peidiwch â digio ond mae'n gweithio felly peidiwch â thynnu ei sylw."
- Mae pobl yn tybio fod Katie'n ddall pan fydd yn gwisgo sbectol haul
 - Cynigwch sedd iddi ar y trê
- Mae pobl yn siarad â'r ci yn hytrach na siarad â Katie
- Mae pobl yn dweud wrth Katie, "Nid ci bach yw e!" achos nid yw e fel ci bach maint 'Andrex' mwyach.
- Mae pobl yn aml yn rhagdybio y dylai DeeJay fod yn berffaith.

Mae rhagdybiaeth y cyhoedd o'r ffaith y dylai cŵn tywys fod yn berffaith yn rhagdybiaeth gadarnhaol all droi'n un negyddol pan fyddant yn gweld ci bach sy'n cael ei hyfforddi neu sy'n gweithio yn gwneud rhywbeth nad ydynt yn ei ddisgwyl e.e. cyfarth neu'n gwneud eu busnes ar y stryd. Mae'n bwysig fod y cyhoedd yn cofio fod ci tywys yn parhau i fod yn gi, ac nad ydym yn ei annog i beidio â bod yn gi.

Gweithgaredd

Fideo a Thrafodaeth grŵp

Gwylwch y fideo 'A Test of Blind Ambition' fel dosbarth a defnyddiwch y canlynol fel testunau i'w trafod. Noder – mae'r fideo yn cynnwys rhegi ysgafn

Dolen i'r fideo A Test of Blind Ambition

- Pa synau allwch chi eu hadnabod?
- Disgrifiwch unrhyw synau nad oedd modd i chi eu hadnabod?
- Pa ragdybiaethau a safbwyntiau a glywsoch?
- Beth oedd eich teimladau am y rhieni a oedd yn trafod anfon Libby i ysgol ar gyfer y deillion? Sut fydddech chi'n teimlo os mai chi oedd hi? (anogwch leisio'r cadarnhaol a'r negyddol)
- Beth oeddech chi'n ei deimlo am yr awgrym, "mae'r dewis yna o yrfa yn rhy uchelgeisiol i rywun fel chi. Beth am weithio yn y dderbynfa yn y gampfa?"
- Trafodwch "Normal"
- Sut wnaeth hyn wneud i chi deimlo? (Dylid trafod teimladau cadarnhaol a negyddol.)

Fel gweithgaredd ychwanegol, gellir gwyllo fideo BBC 3 ynghylch rhagdybiaethau a'r cwestiynau a ofynnir i bobl sydd â nam ar eu golwg.

Dolen i fideo BBC 3 Video

Gweithgaredd

Sut fydddech chi'n teimlo? - trafodaethau mewn parau, grwpiau bychain

Trafodaeth

Sut ydym yn ymddwyn o amgylch pobl sydd â nam ar eu golwg?

Yn aml, ni fyddwn yn gwybod sut i ymddwyn o amgylch pobl sydd â nam ar eu golwg. Byddwn yn teimlo'n lletchwith ac yn ansicr am sut i siarad neu ymddwyn. Mae'r drafodaeth hon yn archwilio'r teimladau hyn.

Rhowch ddyfyniad gan berchennog ci tywys i bob grŵp ei archwilio, o'r daflen adnoddau 'Sut fydddech chi'n teimlo?'

- A fydddech chi'n ymddwyn yn wahanol o amgylch person sydd â nam ar ei olwg?
- A fyddai person â nam ar ei olwg yn gwneud i chi deimlo'n lletchwith/anghyfforddus? Pam?
- A ydych yn teimlo y dylech gynnig cymorth i berson â nam ar ei olwg?
- A ydych yn rhagdybio nad yw'n gallu eich gweld?
- A yw'r ffaith fod gan rywun nam ar ei olwg yn gwneud i chi farnu ei allu?
- A fydddech yn eithrio person ifanc sydd â nam ar ei olwg o'ch gweithgareddau?
- O ble ddaw'r rhagdybiaeth?
- A yw'n rhywbeth y mae'r disgybl wedi ei ragdybio?
- Sut fyddai'n gwneud iddyn nhw deimlo?
- Sut all pobl gynorthwyo i dorri'r rhagdybiaethau hyn?

Gweithgaredd

Gwaith prosiect mewn parau/grwpiau bychain

Crëwch ymgyrch er mwyn cynorthwyo i dorri rhagdybiaethau ynghylch pobl sydd â nam ar eu golwg

Gallai grwpiau greu poster, ffilm neu bamffledyn ddylai sbarduno pobl i weithredu a chynnwys arwyddeiriau. Dylai'r ymgyrch gael ei sefydlu o amgylch dyfyniadau perchnogion y cŵn tywys, 'sut fydddech chi'n teimlo?'

Gallai'r rhain gael eu grwpio ynghyd er mwyn creu'r themâu canlynol i'r ymgyrch:

- Hannah a Debbie - Sut i siarad â rhywun sydd â nam ar ei olwg - nid yw bod yn ddall yn golygu eich bod yn anweledig neu'n dwp.
- Rosie, Kelly a Lora – rhagdybiaethau ynghylch cŵn tywys. Cŵn ydynt, nid robotiaid ac nid ydynt yn berffaith.
- Deb a Holly – Gofynnwch cyn i chi gynorthwyo rhywun.